**EITEM AR YR AGENDA: 11**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**16 Mehefin 2014**

## GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS A GWIR DDANGOSYDDION DARBODUS 2013-2014

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

### Pwrpas yr Adroddiad

1 Mae'r adroddiad trysorlys blynyddol yn un o ofynion gweithdrefnau cofnodi'r Awdurdod, ac mae'n cynnwys gweithgarwch y trysorlys ar gyfer 2013-2014. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys y gwir Ddangosyddion Darbodus ar gyfer 2013-2014, yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

### Rôl Graffu

2 Cyflwynwyd yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio ar 2 Mehefin 2014 er mwyn adolygu cynnwys yr adroddiad cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân. Nid oedd gan Aelodau'r Pwyllgor Archwilio unrhyw sylwadau pwysig ac nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell ei fod yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod.

## GWEITHGARWCH RHEOLI'R TRYSORLYS 2013-2014

### Crynodeb o'r Strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer 2013-2014

3 Roedd Arlingclose, sef ymgynghorwyr Trysorlys yr Awdurdod, wedi rhagweld y byddai blwyddyn ariannol 2013-2014 yn gweld cyfraddau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn codi yn y tymor hir, a chyfradd y banc yn aros ar y lefel gyfredol tan 2017. Yr argymhelliad oedd gohirio'r gweithgarwch benthyca cyhyd ag y bo modd, a defnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu

dyledion benthyciadau dros dro newydd. Ond, os bydd angen benthyca, dylai unrhyw ddyled newydd fod am gyfnod hirach na 5 mlynedd oherwydd proffil aeddfedu cyfredol y portffolio dyledion, a'r angen i liniaru'r risg o newidiadau posibl i gyfraddau llog. Dylid cymryd agwedd wyliadwrus tuag at fuddsoddi cronfeydd. Ni ddylai'r buddsoddiad hiraf fod yn hirach na thri mis, a dylid dadansoddi'r holl wybodaeth sydd ar gael ar bartïon i gontract cyn buddsoddi.

## Cefndir Economaidd 2013-2014

4 Yn ôl y rhagolygon economaidd ar gyfer 2013-14, byddai'r gyfradd sylfaenol yn aros yr un fath ar 0.5%, a byddai cyfraddau tymor hir y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus yn codi. Roedd y rhagolygon ar gyfer y flwyddyn yn gywir o ran y gyfradd sylfaenol, ac o ran cyfraddau'r Bwrdd bu codiadau bychain yn y cyfraddau tymor hir ond roedd y rhain yn llai na'r disgwyl. Roedd pryderon am y sector Bancio yn dal yn amlwg, ac ar gyfer strategaethau buddsoddi Awdurdodau Lleol y prif flaenoriaeth oedd sicrhau diogelwch cronfeydd. Parhaodd nifer fawr o Awdurdodau Lleol i fuddsoddi cronfeydd dros ben ym Manc Lloegr ac Awdurdodau Lleol eraill yn hytrach na Banciau a Chymdeithasau Adeiladu, gan aberthu elw er mwyn cael sicrwydd. Cymerodd yr Awdurdod agwedd wyliadwrus tuag at fuddsoddiadau, gan fuddsoddi dros dro mewn Sefydliadau Bancio a Chymdeithasau Adeiladu Prydeinig ar y rhestr o bartïon i gontract yn unig. O ran benthyca, manteisiodd yr Awdurdod ar y cyfraddau llog isel, a chadw ei sefyllfa fenthyca tymor byr ar £7 miliwn dros y flwyddyn. Cymerwyd benthyciad newydd gan y Bwrdd yn lle benthyciadau a oedd yn aeddfedu, a chan ddilyn cyngor Ymgynghorwyr y Trysorlys, cyfnod y benthyciad oedd 5½ mlynedd er mwyn cyd-fynd â phroffil aeddfedu'r portffolio. Yn gyffredinol, aeth lefel benthyciadau'r Bwrdd i lawr yn ystod y flwyddyn oherwydd na chafwyd benthyciadau blwydd-daliadau newydd wrth i'r hen rai aeddfedu, a defnyddiwyd cronfeydd wrth gefn a balansau i ariannu dros dro ddyledion newydd a dyledion yn aeddfedu. Cadwodd yr Awdurdod bortffolio o fenthyciadau tymor byr, a oedd yn £7 miliwn, ac roedd pob benthyciad yn dod gan Awdurdodau Lleol eraill gan fanteisio ar y cyfraddau llog isel a oedd ar gael. Nid oedd unrhyw gyfleoedd i ailstrwythuro yn ystod y flwyddyn.

## Gweithgarwch Benthyca

5 Cymerwyd benthyciadau i ariannu rhaglen gyfalaf yr Awdurdod Tân ac Achub. Cymerwyd benthyciad newydd, o £3 miliwn, gan y Bwrdd yn 2013-2014 yn lle benthyciadau a oedd yn aeddfedu. Ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau ychwanegol i ariannu'r rhaglen gyfalaf gan fod hon yn cael ei hariannu am y tro gan gronfeydd wrth gefn a balansau. Fe wnaeth yr Awdurdod fenthyca £2.039 miliwn yn is na'i Ofyniad Cyllid Cyfalaf (*Capital Financing Requirement (CFR)*) ar gyfer 2013-2014. Parhaodd yr Awdurdod i ddefnyddio benthyciadau dros dro gan Awdurdodau Lleol eraill fel modd o ariannu'r rhaglen gyfalaf, a chafwyd gwerth £7 miliwn o fenthyciadau drwy gydol y flwyddyn. Amrywiodd y cyfraddau llog ar fenthyca dros dro rhwng 0.45% a 0.55%, gyda'r cyfraddau hyn llawer yn is na'r cyfraddau a gynigwyd gan y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus.

## Buddsoddiadau

6 Mae polisi buddsoddi'r Awdurdod yn cael ei bennu gan Ganllawiau Cynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cael ei weithredu yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 15 Rhagfyr 2003. Roedd y gweithgarwch buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd, ac ni chafodd yr Awdurdod unrhyw drafferthion hylifedd.

7 Buddsoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yr holl arian a oedd dros ben yn y farchnad ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub. Balans y buddsoddiadau craidd am y flwyddyn oedd £2,000,000 a balans y buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2014 oedd £1,510,000 o'i gymharu â £2,210,000 ar 31 Mawrth 2013. Y gyfradd ar gyfartaledd a gafwyd ar fuddsoddiadau oedd 0.55%, ac roedd yr arian yn cael ei ddal yn bennaf mewn cyfrif galw dim rhybudd, felly roedd modd cadw sefyllfa'r Awdurdod o ran hylifedd.

8 Mae balans yr arian sydd ar gael i'w fuddsoddi fymryn yn is gan fod rhywfaint o'r arian dros ben yn cael ei ddefnyddio i ariannu'r rhaglen gyfalaf yn y tymor byr. £25,000 oedd y gyllideb ar gyfer llog buddsoddiadau, a £21,165 oedd y gwir log a gafwyd. Bu gostyngiad yn y llog yn bennaf oherwydd bod y gyfradd llog ar y cyfrifon galw wedi gostwng o 0.75% i 0.55%.

## DANGOSYDDION DARBODUS

9 Yn unol â'r Cod Darbodus, mae gofyn i'r Awdurdod roi gwybod am y gwir ddangosyddion darbodus ar ôl diwedd y flwyddyn. Mae Atodiad A yn cynnwys rhestr y dangosyddion darbodus gorfodol. Mae rhai o'r dangosyddion hyn naill ai'n rhoi trosolwg neu derfyn ar weithgarwch trysorlys, a dangosir y rhain isod:

| | **2014 Gwir £'000** | **2014 Dangosydd Gwreiddiol £'000** |
|---|---|---|
| Sefyllfa Benthyca | 21,290 | 30,099 |
| Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 23,329 | 30,099 |

10 Mae Gofyniad Cyllido Cyfalaf (CFR) yn dangos angen sylfaenol yr Awdurdod i fenthyg i ddiben cyfalaf, ac mae hyn yn ffordd o fesur sefyllfa dyled yr Awdurdod fel y dangosir uchod. Er mwyn sicrhau y bydd gwir fenthyca buddsoddiadau dros y tymor canolig ar gyfer cyfalaf yn unig, ni ddylai'r benthyca, ar wahân i fenthyca tymor byr, fod yn fwy na'r CFR ar gyfer 2013-2014 ynghyd â'r newidiadau disgwyliedig i'r CFR yn ystod 2014-2015 a 2015-2016. Mae'r tabl uchod yn dangos bod sefyllfa net yr Awdurdod o ran benthyciadau fymryn yn is (£2.039miliwn) na'r CFR ar gyfer 2013-2014.

11 Y Terfyn Awdurdodedig yw'r "Terfyn Benthyca Fforddiadwy", sydd yn ofynnol dan adran 3 Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r tabl isod yn dangos fod yr Awdurdod wedi cadw ei fenthyca gros o fewn y Terfyn Awdurdodedig yn ystod 2013-2014.

12 Y Ffin Weithredol yw sefyllfa benthyg ddisgwyliedig yr Awdurdod yn ystod y flwyddyn, ac mae cyfnodau pan fo'r gwir sefyllfa o dan, neu dros, y Ffin yn dderbyniol ar yr amod nad yw'n uwch na'r Terfyn Awdurdodedig.

| | 2013/14 £'000 |
|---|---|
| Dangosydd Gwreiddiol – Terfyn a Ganiateir | 32,099 |
| Dangosydd Gwreiddiol – Ffin Weithredol | 30,099 |
| Y mwyafswm o ran benthyciadau yn ystod y flwyddyn | 22,946 |
| Yr isafswm benthyca yn ystod y flwyddyn | 21,289 |

## Y FFRAMWAITH RHEOLEIDDIO, RISG A PHERFFORMIAD

13 Mae gweithgarwch rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cael ei reoli gan nifer o godau, statudau a chanllawiau proffesiynol:

- Deddf Llywodraeth Leol 2003 (y Ddeddf), sy'n darparu'r pwerau i fenthyg a buddsoddi yn ogystal â rhoi cyfyngiadau a therfynau ar y gweithgarwch hwn;

- Mae'r Ddeddf yn caniatáu i Lywodraeth Cynulliad Cymru osod terfynau un ai ar yr Awdurdod neu'n genedlaethol ar bob awdurdod lleol, gan gyfyngu ar y benthyca a ganiateir (er na wnaed unrhyw gyfyngiadau yn 2013-2014);

- Mae'r Offeryn Statudol 3239 (W319) 2003, diwygiedig, yn datblygu ac yn rheoli pwerau o fewn y Ddeddf;

- Mae'r Offeryn Statudol yn mynnu bod yr Awdurdod yn ymgymryd ag unrhyw weithgarwch benthyca gan ystyried Cod Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf Awdurdodau Lleol;

- Mae'r Offeryn Statudol hefyd yn mynnu bod yr Awdurdod yn cymryd gofal am holl weithgarwch y trysorlys gan ystyried Cod Ymarfer CIPFA ar gyfer Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus;

- Dan y Ddeddf mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno Canllaw Buddsoddi i strwythuro a rheoli gweithgarwch buddsoddi’r Awdurdod.

14 Mae’r Awdurdod wedi cydymffurfio â’r holl ofynion statudol a rheoleiddio perthnasol uchod sy’n cyfyngu ar lefel y risg sy’n gysylltiedig â’i weithgarwch rheoli trysorlys. Yn benodol, mae’r ffaith ei fod wedi mabwysiadu a gweithredu’r Cod Darbodus a’r Cod Ymarfer ar gyfer Rheoli Trysorlys yn golygu bod ei wariant cyfalaf yn ddoeth, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy, ac mae ei arferion trysorlys yn dangos agwedd risg isel.

**ARGYMHELLIAD**

15 Gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo’r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol ar gyfer 2013-2014.

***ATODIAD A***

| | | 2013/14 Gwir | 2013/14 Dangosydd Gwreiddiol |
|---|---|---|---|
| 1 | Gwariant Cyfalaf | 2,961,545 | 7,616,000 |
| 2 | Gofyniad Cyllido Cyfalaf | 23,329,204 | 30,099,000 |
| 3 | Benthyca | 21,289,934 | 30,099,000 |
| 4 | Buddsoddiadau | 1,510,000 | 2,000,000 |
| 5 | Terfyn a Ganiateir | 22,946,000 | 32,099,000 |
| 6 | Ffin Weithredol | 21,289,934 | 30,099,000 |
| 7 | Cymhareb y Costau Ariannu â Llif Refeniw Net | 7.69% | 8.73% |
| 8 | Effaith gynyddol Penderfyniadau Buddsoddi Cyfalaf ar y Cyfraniadau gan yr Awdurdodau Cyfansoddol | 44,423 | 114,000 |
| 9 | Benthyciadau Cyfradd Llog Sefydlog fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 100% | 55% - 100% |
| 10 | Benthyciadau Cyfradd Amrywiol fel % o Gyfanswm y Benthyciadau | 0% | 0% - 45% |
| 11 | Strwythur Aeddfedu Benthyciadau Cyfradd Sefydlog | | |
| | Dan 12 mis | 32.88% | 0% - 55% |
| | 12 mis i 2 flynedd | 18.84% | 0% - 50% |
| | 2 flynedd i 5 mlynedd | 9.76% | 0% - 50% |
| | 5 mlynedd i 10 mlynedd | 23.49% | 0% - 75% |
| | 10 mlynedd a hirach | 15.03% | 0% - 100% |
| | | | |